

VQ Day
Celebrating Vocational Achievement

Diwrnod VQ
Dathlu Llwyddiant Galwedigaethol

# Talents at Work • Doniau ar Waith



Jeff Cuthbert, Dirprwy Weinidog Sgiliau

Mae Diwrnod Cymwysterau Galwedigaethol (VQ) yn dathlu llwyddiannau ledled y DU ar draws ystod eang o sectorau economaidd, gan gynnwys addysg, adeiladu, arlwyo, cyfrifeg, y diwydiannau creadigol, gwyddoniaeth, peirianneg, rheolaeth, technoleg a mwy. Mae'r cyhoeddiad hwn, sy'n cyd-fynd â Diwrnod VQ 2011, yn amlinellu cyflawniadau amrywiol a thrawiadol unigolion o Gymru. Maent oll â blas ar ddysgu ymarferol, dysgu yn y gwaith neu redeg busnes. A chyn bwysiced, mae ganddynt y cymhelliant a'r angerdd i lwyddo. Jeff Cuthbert, Dirprwy Weinidog Sgiliau Llywodraeth Cymru oedd y gwestai anrhydedd yn seremoni Wobrwyo Dysgwr VQ y Flwyddyn ar 22 Mehefin 2011 yng Nghaerdydd. Dywedodd: "Nid yw cymwysterau galwedigaethol erioed wedi bod yn bwysicach i'r economi ac i'r unigolyn. Maen nhw'n ein helpu i baratoi'r cyflogeion hyfforddedig, dawnus y mae ar fusnesau Cymru eu hangen. "Fel y Dirprwy Weinidog Sgiliau, rwy'n benderfynol o weld cymwysterau galwedigaethol yn cael eu cydnabod ochr yn ochr â chymwysterau academaidd o ran eu gwerth i'r unigolyn ac i gymdeithas. Dyna'r rheswm rydw i wrth fy modd fod Diwrnod VQ bellach yn ddigwyddiad blynyddol. Mae'n hollbwysig ein bod ni'n dathlu'r llwyddiant y cyflawnir diolch i gymwysterau galwedigaethol yn yr un modd ag y dathlwn gyflawniadau academaidd."

DYSGWR VQ Y FLWYDDYN | ENILLYDD

## Y cogydd Seren Michelin ieuengaf?

Nid un i'w diystyru mo Luke Thomas. Ei nod yw bod y cogydd seren Michelin ieuengaf yn y byd. Mae ganddo angerdd a chymhelliant. Mae'n meithrin profiad gyda chogyddion enwocaf ac uchaf eu parch y byd ar raddfa anhygoel. Mae wedi sicrhau ei noddwyr personol ei hun i deithio o gwmpas y byd i ddysgu gwahanol arbenigeddau arlwyo gan y goreuon. Dubai yw ei gyrchfan nesaf er mwyn iddo fireinio'i sgiliau bwyd môr.

Tra roedd yng Ngholeg Iâl Wrecsam ddwy flynedd yn ôl, fe'i coronwyd yn Gogydd i'r Dyfodol Springboard 2009. Mae'n dweud bod ennill y gystadleuaeth wedi agor sawl drws iddo ac mae'r rhestr o gogyddion y mae wedi gweithio gyda nhw ers hynny'n darllen fel rhestr Pwy 'di Pwy'r byd arlwyo, gan gynnwys Heston Blumenthal, Gary Rhodes a Gordon Ramsay. Mae wedi gweithio ym mhrif gyrchfan Barbados, Sandy Lane ac wedi coginio i'r Tywysog Charles. Yn ystod ei adeg gyda'r Individual Restaurant Company, sicrhaodd leoliadau yn rhai o dai bwyta uchaf eu safon y byd, gan gynnwys tai bwyta dwy a thair seren Michelin yn Nenmarc, UDA a'r DU.

Dywedodd Ian Donald, Cyfarw-yddwr yr Individual Restaurant Company sydd wedi mentora Luke: "Mae gan Luke frwdfrydedd ac angerdd unigolyn ifanc a chanddo freuddwyd ond gydag agwedd a phenderfyniad dyn ar orchwyl. Edrychaf ymlaen at weld y gŵr ifanc hwn yn tyfu'n feistr byd-enwog ar ei grefft."

Mae bellach yn edrych i fuddsoddi yn ei dŷ bwyta ei hun y mae'n bwriadu ei agor mewn dwy flynedd.

A nawr am y newyddion mwyaf syfrdanol. Megis llynedd roedd Luke yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Cei Connah. Dim ond 17 oed yw Luke Thomas.



Luke Thomas

DYSGWR VQ Y FLWYDDYN | ENILLYDD

## Daliwch glawr y cylchgrawn!



Melissa Jenkins

Mae Melissa Jenkins yn uchelgeisiol ac yn fentrus. Ar ôl cyflawni'r marciau uchaf yn ei Diploma Cenedlaethol mewn Ffotograffiaeth yng Ngholeg Penybont, arhosodd yn y coleg i astudio gradd BA mewn Ffotograffiaeth. Gorffennodd ei chwrs eleni ac mae hi newydd glywed bod safon ei gwaith wedi ennill gradd anrhydedd dosbarth cyntaf iddi.

Ar wahân i'w sgiliau ffotograffiaeth gwych, mae'r diwydiant yn sylwi bod ganddi ddawn amlwg am fusnes.

Eleni, enillodd Melissa Wobr Sylfaen Myfyriwr y Flwyddyn Nikon. Mae hwn yn un o'r gwobrau mwyaf uchel eu proffil y gall unrhyw fyfyriwr ei hennill. Ei gwobr yw cyflogaeth o dri mis fel cynorthwyydd i'r ffotograffydd ffasiwn a sêr enwog, John Wright. Gan fyw yn Llundain, bydd hi hefyd yn cael costau byw a chamera proffesiynol Nikon o'r safon uchaf a chit lensys gwerth miloedd.

Dywedodd John Wright, sef prif feirniad Gwobr Nikon: "I mi, roedd gwaith Melissa yn sefyll ben ac ysgwyddau o flaen y lleill. Nid dim ond safon uchel ei delweddau ydoedd ond hefyd ei gwerthfawrogiad o ffotograffiaeth fel busnes a dealltwriaeth o'r angen i hyrwyddo'ch gwaith trwy sawl platfform. Rwy'n credu y bydd hi'n ffitio i mewn yn dda iawn i'm tîm."

Cyhoeddwyd ei gwaith yn What Digital Camera? a chylchgronau cenedlaethol eraill. Mae hi wedi cael erthygl nodwedd 10 tudalen yn y cylchgrawn rhyngwladol Sublime yn ogystal â gweld ei gwaith ar y clawr. Ar yr un pryd, mae hi wedi bod yn sefydlu ei busnes ffotograffiaeth ffasiwn ar ei liwt ei hun ac yn tynnu lluniau o gasgliadau newydd dylunwyr ffasiwn mawr ar gyfer Wythnos Ffasiwn Llundain.

Yn ddiweddar, rhoddodd Vogue wybod iddi yr hoffen nhw ei gweld hi.

Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru NTfW National Training Federation Wales

ColegauCymru CollegesWales

Llywodraeth Cymru Welsh Government

ESF Llywodraeth Cymru Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future European Social Fund

FlippingBook Demo

## Pencampwr o Blymer



Lee James Cuthill

Enillodd Lee James Cuthill rownd derfynol cystadleuaeth SkillPLUMB Cymru yn gynharach eleni. Ar ôl cael ei goroni'n Bencampwr Plymio Cymru, mae bellach yn edrych ymlaen at y cyfle i gynrychioli Cymru yn rownd derfynol y DU a gynhelir yn Leeds ym mis Medi 2011.

SkillPLUMB yw cystadleuaeth sgiliau'r DU a drefnwyd gan SummitSkills y Cyngor Sgiliau Sector i gystadleuwyr gorau colegau'r DU, cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant. Mae rownd derfynol y DU, sy'n para nifer o ddyddiau, yn dod ag enillydd pob cystadleuaeth genedlaethol at ei gilydd. Ystyrir Lee yn fyfyriwr eithriadol gan ei diwtoriaid yng Ngholeg Iâl, Wrecsam lle mae'n astudio ar gyfer NVQ lefel 3 mewn plymwaith. Mae'n awyddus i rannu ei brofiadau a'i ddatblygiad sgiliau gyda myfyrwyr eraill bob amser ac mae'n glod i'r coleg a'i gyflogwr D I Jones Heating o Ruthun.

## Addurno Tsieina

Adnabyddir Emily Evans gan ei thiwtoriaid yng Ngholeg Castell-nedd Port Talbot fel myfyrwraig wirioneddol eithriadol. Ar ôl dim ond tri mis o wersi ar y Dyfarniad Crefftau Uwch mewn Peintio ac Addurno, gofynnodd am sefyll yr arholiad allanol a chyflawnodd radd deilyngdod ar yr ymgais gyntaf. Llynedd, enillodd Emily fedal aur yn rownd derfynol Skillbuild Cymru, gan gyflawni un o'r sgorau uchaf a welwyd erioed yn y gystadleuaeth.

Eleni, symudodd Emily i'r llwyfan rhyngwladol. Ym mis Mawrth 2011, cynrychiolodd Cymru yn Tsieina fel rhan o'r Daith Cyfnewid Sgiliau Cymru-Tsieina gyntaf erioed. Gan fod yn un o'r deg myfyriwr o chwe choleg yng Nghymru i arddangos sgiliau galwedigaethol, dangosodd ei sgiliau peintio ac addurno i fyfyrwyr o 12 coleg yn Chongqing – sef dinas gyflymaf ei thwf y byd.



Emily Evans

ROWND DERFYNOL GWOBR VQ

## Eleri'n torri'r tir plastro

Mae Eleri Evans yn blastrwaig anghonfensiynol a nodedig. Yn fam i dri o blant, rhoddodd gynnig ar bethau eraill cyn canfod ei gwir alwedigaeth. Dechreuodd fuddsoddi yn ei dyfodol ar ôl i'w phlant ddechrau yn yr ysgol. Erbyn hyn, mae hi'n gweithio fel plastrwraig amser llawn, mae hi wedi cyflawni cymwysterau lefel 3 yng Ngholeg Castell-nedd Port Talbot trwy Hyfforddiant Pathways, ac fe'i llongyfarchwyd gan The Plaisterers' Company am ddod i'r pedwar uchaf yn yr ymgais i chwilio am Fyfyriwr Plastro'r Flwyddyn y DU. Mae ei byd wedi'i droi o gwmpas trwy ei chyflawniadau. Mae ganddi hyder yn ei gallu ei hun, mae hi'n gyflogedig ac yn gweithio i safonau uchaf y DU. Mae ei phlant yn falch ohoni, ac dydy hi ddim wedi cyrraedd pen y daith eto. Dywed Eleri bod astudio ar gyfer NVQ3 wedi ei chyflwyno i astudiaethau pellach.

Dywedodd Ian Lumsdaine, Dirprwy Gyfarwyddwr Sgiliau Coleg Castell-nedd Port Talbot: "Rwy'n argyhoeddedig ei bod hi'n cynrychioli gwir fodel rôl i fenywod y gallai fod ganddynt ddiddordeb mewn mynd ar drywydd gyrfa mewn adeiladu."



Eleri Evans

## Gyrfa ar y tonnau

Enillodd y dysgwr hynod gyflym Adam Edgar, 20 oed, o Gapel Curig, wobr aur mewn adeiladu cychod yng Nghystadleuaeth Sgiliau Cymru ym mis Mawrth eleni, fisoedd yn unig ar ôl dechrau cwrs yn y pwnc. Ymrestrodd Adam, hyfforddwr sgïo a oedd yn chwilio am newid cyflymder i chwaraeon yr awyr agored, ar gwrs NVQ mewn adeiladu, cynnal a chadw ac atgyweirio cychod yng Ngholeg Llandrillo ym mis Medi 2010, heb sylweddoli y byddai'n arwain at gyfeiriad hollol newydd mewn bywyd. Dywedodd: "Ar ôl gwneud rhywfaint o hwylio, roeddwn am wybod mwy am sut mae cychod yn gweithio. Rwy'n sicr eisiau mynd i adeiladu cychod nawr. Mae eisoes wedi dysgu cymaint i mi, ac mae ennill y gystadleuaeth wedi dangos imi fy mod i'n eithaf da am wneud hynny!"

Dywedodd Barry Liles, Pennaeth Coleg Sir Gâr a Phencampwr WorldSkills swyddogol Cymru:

"Mae'r cystadlaethau hyn yn cynnig cyfle gwych i'n pobl ifanc fedrus ddangos y gallant guro'r byd. Gallant roi Cymru fach ar y map trwy ddangos ansawdd eu gwaith ac arddangos safon gweithlu Cymru yn gyffredinol."



Adam Edgar

FlippingBook Demo

ROWND DERFYNOL GWOBR VQ

# Gwyddonydd fforensig yn chwilio am onglau newydd

Ar ôl cwblhau blwyddyn gyntaf Safon Uwch yn yr ysgol, roedd Christopher Lewis eisiau cymhwyster galwedigaethol. Roedd ganddo ddiddordeb mewn gwyddoniaeth a'r gyfraith ac felly ymrestrodd yng Ngholeg Penybont i wneud BTEC Diploma Cenedlaethol mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol (Gwyddor Fforensig). Aeth ymlaen i gyflawni tair gradd rhagoriaeth – y graddau uchaf posibl, yn ogystal â Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru. Mae Christopher, sy'n ŵr ifanc o hyd, wedi ysgwyddo cyfrifoldebau teuluol hirsefydlog. Er gwaethaf amgylchiadau personol anodd, aeth y filltir ychwanegol yn y coleg, gan ddefnyddio'i ddoniau a'i egni'n greadigol i ddatblygu mentrau newydd a helpu pobl eraill. Roedd yn allweddol wrth ddatblygu elfennau o'r cwrs, gan ysbrydoli staff a myfyrwyr fel ei gilydd a dyfarnwyd iddo y Wobr Ymrwymiad i Astudio ar gyfer myfyrwyr y coleg. Trwy gydol ei astudiaethau, gweithiodd dros 30 awr yr wythnos fel goruchwyliwr mewn archfarchnad i gefnogi ei astudiaethau gradd i'r dyfodol mewn Gwyddor Fforensig. Mae ei diwtor, Sara Davies, yn esbonio bod sgiliau cyfathrebu ac astudiaethau cysylltiedig eraill wedi helpu Christopher i ddod yn fwy hyderus, a'i helpodd i symud i reolaeth adwerthu, lle mae hyder yn hollbwysig. Christopher hefyd oedd yr ysbrydoliaeth am 'Wythnos Droseddol' y coleg, lle cafodd ei gyfweld gan ITV. Bu'n allweddol i lwyddiant y coleg wrth ennill Gwobr Beacon Genedlaethol am Wyddoniaeth - gwobr uchel ei pharch ymhlith colegau ar hyd a lled y DU.

Dywedodd Sara Davies:

"Christopher yw'r myfyriwr mwyaf cofiadwy ac ysbrydoledig imi ei adnabod erioed. Mae wedi'n hysbrydoli ni fwy nag y bydd byth yn ei wybod."


Christopher Lewis

ROWND DERFYNOL GWOBR VQ

# David gwe-ddoeth yn cynrychioli'r DU

Mae gan David Bowen o Landysul, sy'n astudio ar gyfer Diploma Cenedlaethol mewn TG yng Ngholeg Sir Gâr amserlen brysur. Llynedd, enillodd rownd derfynol Cymru o'r gystadleuaeth dylunio gwe a drefnwyd gan UK Skills. Wedyn, cafodd ei ddewis ar gyfer Sgwad y DU ar ôl tridiau o gystadlu dwys lle bu'n adeiladu gwefan gwbl weithredol gan gynnwys animeiddio a dogfennaeth. Mae bellach yn paratoi i gynrychioli'r DU yng nghystadleuaeth WorldSkills 2011 ym mis Hydref. Mae ei baratoadau yn cynnwys mireinio'i sgiliau cystadlu mewn digwyddiadau cenedlaethol yn Ffrainc ac, yn fuan, yn Awstralia. Er gwaethaf y teithio a'i rôl genhadol yn cymell darpar gystadleuwyr WorldSkills y dyfodol, mae'n parhau i ddod o hyd i'r amser i astudio a gweithio i gwmni dylunio gwefannau. Erioed yn un am laesu ei ddwylo, bu iddo ddangos ysbryd entrepreneuraidd ers oedd yn 14 oed pan


David Bowen

ddechreuodd fusnes am y tro cyntaf, yn gwerthu ei ddylluniau-gwe trwy ei wefan. Yn ogystal, mae David wedi cael gwahoddiad gan Lywodraeth Cymru i fynychu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i ddathlu cyflawniadau pobl ifanc. Dywedodd Mike David, darlithydd yn Ngholeg Sir Gâr, fod David yn gwneud gwaith ardderchog yn cynrychioli'r coleg a hyfforddiant TG. "O'r 200 o aelodau Sgwad y DU, David yw'r ieuengaf ac felly rydym yn falch iawn ohono".

# O gyflawnwr isel i uchel mewn dwy flynedd

Mae Lewis Brown, 19 oed, yn ystyried ei ddewisiadau prifysgol. Dim byd nodedig i rai, efallai. Ond mae taith ddysgu Lewis dros y ddwy flynedd diwethaf wedi bod yn rhyfeddol. Gadawodd Lewis yr ysgol gyda graddau TGAU gwael. Ymrestrodd ar gwrs peirianneg Lefel 1 yng Ngholeg Glan Hafren. Ymddengys ei ragolygon yn gyfyngedig. Ond mewn ychydig flynyddoedd, mae wedi ennill graddau da mewn TGAU Mathemateg a Saesneg yn ogystal â chyrsiau Lefelau 1, 2 a 3 mewn peirianneg a mathemateg. Eleni, mae Lewis yn cwblhau ei Ddiploma Cenedlaethol mewn Peirianneg Drydanol ac Electronig ac mae wedi ennill Gwobr Myfyriwr y Flwyddyn y Gyfadran Peirianneg ac Adeiladu yng Ngholeg Glan Hafren. Mae ei gais UCAS wedi esgor ar sawl cynnig ar gyrsiau Gradd Anrhydedd ac mae bellach ar yr un lefel â disgyblion Safon Uwch llwyddiannus.

ROWND DERFYNOL GWOBR VQ

# Cael gwobr ym Mhalas Buckingham

Mae Benjamin Morgan, myfyriwr cerbydau modur 20 oed yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy, wedi ymdopi â newidiadau personol difrifol ac wedi parhau i gyflawni y tu hwnt i'w gyfoedion.

Mae wedi bod yn creu argraff ers oedd yn 15 oed. Ar ddiwedd lleoliad gwaith a drefnwyd iddo gan ei ysgol, cynigiodd y cyflogwr swydd iddo. Ers hynny, mae llawer mwy o bobl wedi cymryd sylw o'r Benjamin gwylaidd. Mae ei gyflogwr, Delwyn Humphries o Humphries Garage yn Sir y Fflint, yn ymddiried yn Ben i redeg y gweithdy pan fydd i ffwrdd. Dywedodd "Ben yw'r gweithiwr gorau sydd wedi bod yma hyd yn hyn. Mae ganddo angerdd am ei waith ac mae ansawdd ei grefftwaith o'r radd flaenaf bob tro. Mae fy nghwsmeriaid yn gofyn amdano. Rwy'n gwybod pan fyddaf i ffwrdd, bydd y lle mewn dwylo diogel iawn gyda Ben". Mae Ben yn ddysgwr eithriadol. Mae wedi buddsoddi ei arian ei hun mewn offer newydd er mwyn cael mwy o gyfleoedd i ymarfer ar ystod ehangach o gerbydau. Mae'n dod yn adnabyddus yn y grefft, ar ôl gwneud llawer o gysylltiadau trwy ei goleg a'i gyflogwr, ac mae'n bwriadu agor ei fusnes ei hun y flwyddyn nesaf. Mae'r corff dyfarnu, City &Guilds, wedi sylwi arno. Eleni, gwobrwywyd Medal Rhagoriaeth City & Guilds iddo yn ogystal â dwy wobr hynod fawreddog ychwanegol: Gwobr Llew City & Guilds ar gyfer Dysgwr Sector AB y Flwyddyn a gwobr The Worshipful Company of Cutlers am Beirianneg. Tair gwobr mewn un noson!


Ar ben hynny, mae ei enw yn rownd derfynol Gwobr Dysgwr VQ y Flwyddyn 2011 fel rhan o ddathliadau Diwrnod VQ ar 22 Mehefin 2011.


Benjamin Morgan

FlippingBook Demo

# Long Beach, Florida a'r teledu yn rhan o'r cymysgedd i'r steilydd gwallt Nick

Mae Nicholas Petrakis yn adnabyddus i filyniau drwy sioe deledu realiti ond mae ei draed yn gadarn ar y ddaear. "Doedd gen i ddim diddordeb yn yr ysgol ond pan fyddai unrhyw beth yn ymwneud â thrin gwallt yn cael ei grybwyll, byddwn yn amsugno'r wybodaeth i gyd yn gyflym oherwydd roedd gennyf awch amdano. Cytunwyd gyda'r ysgol y byddai er lles imi gael fy rhoi mewn addysg alwedigaethol amser llawn" meddai Nick, sydd bellach yn 24 oed. Daeth o hyd i leoliad gwaith mewn salon trin gwallt yng Nghaerdydd a helpodd ISA Training iddo gyflawni NVQ lefelau 1 a 2 a phrentisiaeth sylfaen mewn trin gwallt. Pan oedd Nick yn 19 oed, symudodd i Lundain i hyfforddi gyda Steiner Cruise Liners a phan gwblhaodd ei hyfforddiant, ymgartrefodd yn Long Beach, Florida. Flwyddyn yn ddiweddarach, perodd resymau personol iddo ddychwelyd i Gaerdydd, lle daeth yn rheolwr salon yn 20 oed yn unig. Ar ôl dwy flynedd, symudodd i Vanilla Rooms fel Steilydd Dylunio, cwblhaodd Brentisiaeth mewn Trin Gwallt (cymhwyster lefel 3) gyda ISA Training ac wedyn galwodd y teledu. Llynedd, enwebodd cleient ef am gystadleuaeth Hoff Steilydd Gwallt y Genedl. O'r miloedd o enwebeion eraill ledled y DU, daeth Nick i'r ail safle. Yn ogystal, cyrhaeddodd y 18 olaf yng nghystadleuaeth Great British Hairdresser ar E4, a ddarlledwyd ym mis Ebrill 201. Er gwaetha'r bri y mae ei enwogrwydd wedi dod iddo ef a'r salon, mae Nick yn fwy awyddus i drosglwyddo'i sgiliau i bobl eraill, yn hytrach nag ymhyfrydu yn ei lwyddiant personol. Mae newydd gwblhau ei Ddyfarniad A1 a bydd yn dechrau asesu a mentora steilyddion ifanc yn fuan.



Nicholas Petrakis

# Gyrfa newydd ac aur yn 50 oed

Mae Karen Matthews o Ruthun wedi dangos nad yw oedran a chaledi personol yn rhwystrau i newid gyrfa radical ar ôl sefydlu ei hun fel un o gogyddion crwst dan hyfforddiant gorau Cymru yn 50 oed. Ar ôl sawl blwyddyn fel rheolwr gwerthiant TG, penderfynodd fod angen iddi roi cynnig ar rywbeth newydd yn dilyn damwain car cas a olygai ei bod yn methu gweithio.

Ymhen misoedd, mae hi wedi dod yn un o sêr y byd coginio. Yn ddiweddar, enillodd y fedal aur yng nghystadleuaeth Coginio a Gwasanaethau Tai Bwyta Cystadleuaeth Sgiliau Cymru. Mae Karen, sydd wrthi'n astudio cwrs NVQ Lefel 3 mewn Teisennau a Melysion yng Ngholeg Llandrillo Cymru, yn mwynhau'r profiad cymaint, mae hi'n benderfynol o wneud gyrfa ohono. Mae cystadlu yn nigwyddiad Cystadleuaeth Sgiliau Cymru wedi trawsnewid y ffordd y mae hi'n meddwl am fwyd ac mae wedi rhoi hyder newydd iddi yn ei sgiliau coginio. Dywedodd: "Rydw i wedi gweld fy hun yn berson bwyd erioed ond pan fyddwch chi'n bwrw ymlaen fel finnau, rydych chi o'r farn fod dysgu allan o'r cwestiwn. Roeddwn yn wirioneddol nerfus pan ymrestrais ond mae rhai myfyrwyr aeddfed yn fy nosbarth ac mae pob un ohonom yn cael mwynhad ohono. Rwyf wrth fy modd o ennill y wobr aur ac mae'n dangos nad yw oedran yn rhwystr!"



Karen Matthews

# Gwesty mawr yn Swistir yw'r sbringfwrdd nesaf

Mae'r myfyriwr o Goleg y Barri, Lewis Barnett, 26 oed wedi mynd o'r safle adeiladu i swydd ei freuddwydion mewn tŷ bwyta mewn gwesty blaengar yn y Swistir ar ôl cwblhau cwrs sy'n annog sefydliadau mawrion i gymryd prentisiaid. Bu gan Lewis ddiddordeb mewn gyrfa fel cogydd erioed, ac ymrestrodd ar raglen Llwybrau at Brentisiaeth mewn Lletygarwch ac Arlwyo – rhaglen hyblyg yn y coleg gydag elfen profiad gwaith gref. Mae bellach yn adeiladu sylfaen gref iddo ef ei hun ond nid dyna fel oedd hi iddo bob amser: "Roeddwn yn arfer gweithio yn y diwydiant adeiladu, ond pan ddaeth y dirwasgiad, nid oedd hi'n hawdd cael gwaith", esboniodd. "Roeddwn i ar y safle un diwrnod a gwelais hen ŵr yno yn gweithio. Roedd y glaw yn pistyllio a meddyliais "Nid yw hwn at fy nant mewn gwirionedd". Mae llwyddiant mewn dysgu yn esgor ar fwy o heriau dysgu er mwyn parhau i ddringo'r ysgol yrfa. Ar ôl meistroli'r newid o adeiladu i arlwyo, ei dasg nesaf fydd dysgu Almaeneg! Ar ôl ei gwrs arlwyo, cyflogwyd Lewis yn amser llawn gan Westy'r Marriott Caerdydd ac mae bellach ar fin dilyn prif gogydd y Marriott Caerdydd draw i Westy Renaissance y gadwyn yn Zurich.

"Bydd hi'n her, yn enwedig gyda'r iaith oherwydd dim ond ychydig o Almaeneg sydd gennyf", meddai Lewis. "Ond rwy'n edrych ymlaen yn fawr ati – dyma'r cam nesaf imi ac mae'n gyfle delfrydol".



Lewis Barnett

FlippingBook Demo

# Gwisgo Sêr y Llwyfan a'r Sgrin

Mae Samantha Jones a Kate Barton wedi gwneud defnydd da o gysylltiadau'r diwydiant a wnaethant wrth astudio ar gyfer y Radd Sylfaen mewn Adeiladu Gwisgoedd ar gyfer y Sgrin a'r Llwyfan yng Ngholeg Morgannwg.

Fel rhan o'i hastudiaethau, cafodd Kate ei lleoli gyda chwmnïau mawreddog ar brofiad gwaith, gan gynnwys pedwar mis fel gwneuthurwraig/cynorthwyydd gwisgoedd ar Young Dracula y BBC a phrosiect byw gyda chynhyrchiad Opera Ieuenctid Cenedlaethol Cymru, Maisey Day. Ers gadael y coleg, mae hi wedi bod yn gweithio'n amser llawn yn Opera Cenedlaethol Cymru fel gwneuthurwraig gwisgoedd ar sioeau megis La Traviata, Madame Butterfly a Die Meistersinger Von Nurnberg.

Mae profiad gwaith Samantha wedi cynnwys gweithio ochr yn ochr â'r dylunydd gwisgoedd ar gyfer The Importance of Being Earnest ganTheatr Mappa Mundi, a gweithio'n broffesiynol ar daith gyda Theatr Na n'Og fel cynorthwyydd gwisgoedd. "Roedd hwn yn gam mawr imi adeiladu fy nghysylltiadau a'm profiad gyda gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant" meddai. "Gweithiais ochr yn ochr â chyfarwyddwyr, dylunwyr ac actorion a chefais rôl ar y llwyfan hyd yn oed! Rhoddodd y cwrs y sgiliau a'r hyder imi fynd yn syth i'r diwydiant."

Gan raddio yn 2009, dewisodd Samantha'r llwybr llawrydd ac mae wedi casglu rhestr nodedig o glodydd ar gyfer ei gwaith gwisgoedd, gan gynnwys The Sound of Music, Les Miserables a Hairspray. Mae hi wedi gweithio i Ganolfan Mileniwm Cymru a Birmingham Royal Ballet a hi oedd y dylunydd gwisgoedd ar y ffilm fawr Masterpiece a ddaeth i enwogrwydd ym mis Mai eleni pan gafodd y wobr Actor Gorau yng Ngŵyl Ffilmiau Annibynnol Prydain.

Mae Samantha'n gwneud ac yn addasu ffrogiau priodas hefyd ac mae yn y broses o sefydlu ei busnes ei hun. Dywedodd: "Rwy'n caru'n hyn rwy'n ei wneud ac mae gennyf waith eisoes wedi'i drefnu ar gyfer y cwpl o flynyddoedd nesaf!"


Kate Barton
Samantha Jones

# Mae Holly'n un mewn 7000!

Mae'r fyfyrwraig o Goleg Penybont, Holly Bluett, wedi curo 7,000 o sêr–ar-gynnydd y theatr i ennill ysgoloriaeth i Ysgol Celfyddydau Perfformio Birds mawreddog yn Llundain. Mae Holly, 18 oed, yn un o 25 ymgeisydd yn unig i ennill ysgoloriaeth i'r Ysgol. Mae hynny'n golygu y bydd y ffioedd o £30,000 yn cael eu talu. Mae cyn-fyfyrwyr Ysgol Celfyddydau Perfformio Birds i'w gweld yn amlwg iawn yn y West End. Mae'r rhestr o sioeau mawrion y mae eu myfyrwyr wedi perfformio ynddynt yn rhestr hir iawn.

Dywed Sharon James, Pennaeth y Celfyddydau Creadigol yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr "Mae mor anodd mynd i mewn i'r ysgolion hyn, ond bu gennym obeithion mawr i Holly erioed. Gallem weld eu bod hi'n wirioneddol ddawnus o'r dechrau'n deg." Yn wir, mae Holly eisoes wedi bod yn ennill profiad ar lwyfan fawr. Yn ystod ei hastudiaethau ar ei BTEC Diploma Cenedlaethol mewn Theatr Gerddorol, bu hi'n rhan o grŵp dawns Coleg Penybont, Truedynamix, a ddaeth yn agos i'r brig yn sioe dalent boblogaidd Channel 5 yr haf diwethaf: Don't Stop Believing. A hi sy'n chwarae Eponine yng nghynhyrchiad presennol y coleg, Les Miserables. Dywedodd: "Rydw i wrth fy modd nid yn unig am gael fy nerbyn ond am gael yr ysgoloriaeth hefyd. Hoffwn fynd ymlaen i berfformio yn y West End. Dyna'r cyfan rydw i erioed wedi eisiau ei wneud."


Holly Bluett

# Credydau ar gyfer ffilmiau, teledu ac albymau

Dechreuodd Jeremy Murphy ei yrfa yn stiwdios CTS Lansdowne yn 2004 – yr un flwyddyn ag y cwblhaodd ei astudiaethau ar gyfer Diploma Cenedlaethol mewn Technoleg Cerddoriaeth yng Ngholeg Sir Gâr. Roedd Jeremy'n uchel ei gymhelliant ac roedd ganddo ffocws. Cyflawnodd y graddau uchaf posibl ond penderfynodd yn erbyn mynd i brifysgol. Roedd eisiau 'dysgu trwy wneud'.

Cafodd brofiad o gyfarpar safon diwydiant yn y coleg a daeth o hyd i gyflogaeth yn gyflym fel peiriannydd cynorthwyol dan hyfforddiant y prif beiriannydd Chris Dibble. Gweithiodd ar nifer fawr o sgorau ffilm/teledu a gwaith albymau gyda chynhyrchwyr ac artistiaid uchel eu proffil cyn symud i Angel Recording Studios yn Llundain yn 2006.

Ers hynny, mae wedi gweithio ar sawl sgôr ffilm fawr, megis Nine, Letters to Juliet a The Killer Inside Me. Mae ei glodrestr ar y teledu'n cynnwys Bleak House, Little Dorrit a Miss Marple. Ac mae ei glodrestr o albymau'n amrywio o jas ac albymau bandiau mawr fel The Amadeus Project Guy Barker a'r Dixie Chicks i artistiaid roc a phop fel Jeff Beck, Helena Blackman a Robbie Williams. Mae gwaith ar ddod y stiwdio'n cynnwys albwm Cee Lo Green sef The Lady Killer, James Blunt, The Promise gan C4 a Jane Eyre.


Jeremy Murphy

FlippingBook Demo

# TGAU i fod yn gyfarwyddwr

Diolch i hyfforddiant yn y swydd, mae James Pepper bellach yn gyfarwyddwr ar gwmni.

Gan ddechrau gyda TGAU, bu gan James nifer o rolau yn Vista Retail Support gan gynnwys Rheolwr Profi ac Atgyweirio a Rheolwr Gweithrediadau cyn iddo gael ei ddyrchafu'n Gyfarwyddwr Gweithrediadau, diolch i Hyfforddiant Rheoli NVQ4 a gyflawnodd gydag Acorn Training yn 2009. Mae Vista Retail Support yn gosod ac yn cynnal cyfarpar pwynt gwerthu electronig (EPOS) i adwerthwyr yn y DU, Ewrop a thu hwnt. Mae'n cynnig cymorth rownd y cloc, 365 niwrnod y flwyddyn. Mae ei gleientiaid yn cynnwys brandiau adwerthu mawrion fel Midlands Co-op, Lloyds pharmacy, Londis, Dunelm a Spar, yn ogystal â thafarndai, clybiau a chanolfannau bwyd. Mae'n cyflogi dros 160 o bobl ledled y DU, gyda dros 50 o'r rheiny'n gweithio yn y pencadlys yng Nghaerdydd.

Dywedodd James: "Dysgodd yr NVQ imi fod yn fwy dadansoddol, rhesymegol a meddu ar ddull gwyddonol a hefyd i ganolbwyntio ar yr hyn roeddwn yn ceisio'i gyflawni. Rhoddodd fi mewn sefyllfa lle gallwn gael f'ystyried am rôl rheoli uwch. Mae'r NVQ4 mewn Rheolaeth yn cymryd oddeutu dwy flynedd i'w chwblhau ac roedd James yn eithaf amheus yn y lle cyntaf. Ond fe'i perswadiwyd yn fuan. Dywedodd James: "Hyd yn oed cyn imi gwblhau'r cwrs, dywedodd un o'm cydweithwyr iddynt sylwi ar wahaniaeth mawr ynof i a'r ffordd roeddwn yn gweithio. I ddechrau, dim ond dau ohonom o'r cwmni oedd yn cymryd rhan yn NVQ4. Erbyn hyn, mae rhyw saith neu wyth uwch reolwr sydd naill ai wedi cwblhau neu yn y broses o gwblhau'r cymhwyster – yn bennaf oherwydd y gallwn ddangos iddynt pa mor ddefnyddiol y gall y cyrsiau hyn fod a pha mor werthfawr ydynt i'w gyrfaoedd ac i Vista fel busnes." Yn ogystal, paratôdd y cwrs ef am astudiaeth bellach. Yn ddiweddar, cymerodd ran mewn prosiect peilot gydag UWIC ac Acorn fel rhan o'i astudiaethau tuag at Radd Sylfaen mewn Ymarfer Proffesiynol Cymhwysol.


James Pepper



Phillipa Bates

# Gyrfa solet mewn cyfrifeg

Roedd Phillipa Bates yn ddysgwraig aeddfed gydag ymrwymiadau teuluol pan ddechreuodd ar ei thaith dysgu cyfrifeg gyda VGTA yng Ngholeg y Barri ym mis Medi 2007.

Mae hi wedi casglu llu o gymwysterau, a ddyfernir yn bennaf gan AAT - y Gymdeithas Technegwyr Cyfrifo - y corff cymwysterau ac aelodaeth sy'n dyfarnu oddeutu 90% o bob cymhwyster galwedigaethol mewn cyfrifeg, ac a noddir gan y cyrff cyfrifo proffesiynol CIPFA, ICAEW, CIMA ac ICAS. Ei chymhwyster diweddaraf oedd NVQ lefel 4 Technegydd AAT, a enillodd y llynedd. Enillodd barch ei chyd aelodau staff a'i chyflogwr trwy ei chynnydd cyflym. Fe'i gwobrwywyd yn Ddysgwr Cyfrifeg y Flwyddyn gan VGTA/Coleg y Barri. Ac mae ei chyflogwr wedi rhoi ei sgiliau at ddefnydd da. Ar hyn o bryd, hi sy'n gyfrifol am y gyflogres ar gyfer oddeutu 100 aelod o staff – rôl hollbwysig mewn unrhyw sefydliad. Yn ogystal, rhoddwyd cyfrifoldeb ychwanegol iddi yn ei rôl o ganlyniad i'w chymhwyster ac mae hi bellach mewn gobaith o gael ei dyrchafu'n rheolwraig cyfrifon.

# Pâr o ddwylo proffesiynol diogel

Enwyd Rhian Newton yn 'Ymgeisydd Gorau'r Flwyddyn 2011' NEBOSH ar ôl cael y marc uchaf o'r miloedd o fyfyrwyr o bedwar ban byd a safodd arholiad Diogelwch Tân a Rheoli Risgiau NEBOSH. Mae gan Rhian rôl feichus yn Warwick International – sef prif gyflenwr meddalwedd Rheoli Iechyd Galwedigaethol ledled y DU. Yn ogystal, mae hi'n rhoi ei sgiliau a'i diddordebau proffesiynol at ddefnydd da fel aelod o IOSH – y corff siartredig ar gyfer gweithwyr iechyd a diogelwch proffesiynol yn ogystal â'r Sefydliad Ansawdd Siartredig.

Wrth gwblhau ei hastudiaethau yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy, ehangodd Rhian ei gorwelion gwaith ac mae wrthi'n cymryd rhan yng nghynllun COMAH (rheoli peryglon o ddamweiniau mawrion) safle Warwick, sy'n golygu gweithredu ar y lefel uchaf gyda rheolwyr a chyfarwyddwyr safle yn ogystal â'r gwasanaethau brys ac awdurdodau gorfodi.


Rhian Newton

# Dysgu bod yn athro yn y swydd

Mae Philip George yn defnyddio dull ymarferol i bob pwrpas yn ei nod o ddod yn athro.

Am ei fod yn amlwg yn mwynhau cwmni pobl ac yn cael blas ar gyfleoedd i drefnu a gweithio mewn tîm, mae wedi dechrau tîm pêl fasged i gadeiriau olwyn yn ei amser ei hun. Un o gampau'r Gemau Paralympaidd, pwy a ŵyr i ble y gallai hynny arwain!

Cyflawnodd Philip raddau TGAU da a dechreuodd ddatblygu gyrfa mewn adeiladu yn dilyn llwyddiant wrth ennill Diploma Cenedlaethol. Ond o gael ei ysbrydoli gan ei fam a oedd wedi cael profiad gwych yn y sector gofal plant, ac o gofio chwiwiau'r diwydiant adeiladu, aeth ati'n feiddgar i newid gyrfa.

Trwy Hyfforddiant Powys, cafodd brofiad gwaith mewn ysgol gynradd i ddechrau a drodd yn swydd gyda thâl fel cynorthwyydd addysgu yn ogystal â phrentisiaeth mewn Gofal Plant, Dysgu a Datblygu. Gyda'r brentisiaeth wedi'i meistroli, mae bellach yn astudio ar gyfer Gradd Sylfaen mewn Astudiaethau Cynhwysol ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu trwy Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn Sir Gaerfyrddin. Ei fwriad wedyn yw ychwanegu at y Radd Sylfaen i radd lawn a chymhwyso fel athro. Arbenigwr mathemateg yw ei nod pennaf.


Philip George

FlippingBook Demo